**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

# Crynodeb o Fesurau'r Cynulliad a basiwyd yn ystod y Trydydd Cynulliad (2007 – 2011)

Mai 2011

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**Mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau'n darparu cymorth ymchwil cyfrinachol a diduedd i bwyllgorau craffu a phwyllgorau deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r 60 o Aelodau'r Cynulliad a'u staff.**

Mae briffiau gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn cael eu hysgrifennu ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a'u staff. Mae'r awduron ar gael i drafod y papurau gydag Aelodau a'u staff ond nid yw'n bosibl rhoi cyngor i'r cyhoedd. Croesawn sylwadau ar ein briffiau; os oes gennych unrhyw sylwadau gallwch eu hanfon i'r cyfeiriad post neu e-bost isod.

Gellir cael gafael ar fersiwn electronig o'r papur ar safle'r Cynulliad Cenedlaethol yn:
www.cynulliadcymru.org/bus-assembly-publications-research.htm

Mae copïau printiedig hefyd ar gael yn Llyfrgell yr Aelodau:

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

E-bost: MembersLibrary@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Rhif ymholiad: 11/0025 Owain Roberts a Sian Nicholson Rhif dogfen: 11/006

# Cynnwys

Mesurau arfaethedig y Llywodraeth ........ 2
Mesurau arfaethedig Aelodau'r Cynulliad ........ 22
Mesurau arfaethedig Comisiwn y Cynulliad ........ 25
Mesurau arfaethedig Pwyllgor y Cynulliad ........ 26
Rhagor o wybodaeth ........ 27

# Cyflwyniad

Yn ystod y Trydydd Cynulliad (2007 – 2011), bu'r Cynulliad Cenedlaethol yn pasio deddfau, a elwir yn "Fesurau'r Cynulliad", mewn meysydd y cafodd ganiatâd Senedd y DU i wneud hynny, o dan Rhan 3 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*[1] ("Deddf 2006")

Rhwng 2007 a 2011, pasiodd y Cynulliad 22 Mesur o'r fath. Cyflwynwyd 17 o'r rhain gan Lywodraeth Cymru, cyflwynwyd tri ohonynt gan Aelodau'r Cynulliad, a chafodd dau eu cyflwyno gan Gomisiwn y Cynulliad a ac un o bwyllgorau'r Cynulliad, yn y drefn honno.

Diben y ddogfen hon yw rhoi crynodeb ar holl Fesurau'r Cynulliad a basiwyd yn ystod y Trydydd Cynulliad, a rhoi amlinelliad byr o ddibenion ac amcanion y Mesurau hynny.

[1] ***Deddf Llywodraeth Cymru 2006*** **(c.32)**

# Mesurau arfaethedig y Llywodraeth

## Mesur Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Edwina Hart AC - Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  2 Gorffennaf 2007
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  9 Gorffennaf 2008

Hwn oedd y Mesur cyntaf a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ac mae'n Fesur sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol bod y GIG yng Nghymru yn ystyried setlo hawliadau is eu gwerth am esgeulustod clinigol heb gychwyn achos cyfreithiol ffurfiol.

Yn ôl Llywodraeth Cymru, amcan cyffredinol y Mesur yw creu fframwaith a diwylliant lle y mae'n haws i gyrff y GIG yng Nghymru ddysgu o gamgymeriadau sy'n digwydd pan fyddant yn darparu gwasanaethau ac i gymryd camau i'w cywiro ac i osgoi ail-adrodd digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

## Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Ieuan Wyn Jones AC - Y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
- **Dyddiad cyflwyno:**
  15 Ebrill 2008
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Rhagfyr 2008

Mae'r Mesur hwn yn gwneud darpariaeth ynghylch teithio gan ddisgyblion sy'n cael addysg gynradd, addysg uwchradd neu addysg bellach neu hyfforddiant i ysgolion neu i fannau eraill lle y maent yn cael addysg neu hyfforddiant, ac oddi yno.

Prif amcanion Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Mesur yw:

- rhoi mwy o hawl i blant ysgolion cynradd gael cludiant am ddim i'r ysgol os ydynt yn byw dwy filltir neu fwy o'r ysgol;
- ailddeddfu'r hawl i blant ysgolion uwchradd gael cludiant am ddim os ydynt yn byw tair milltir neu fwy o'r ysgol addas agosaf;
- darparu'r hawl ar gyfer trafnidiaeth am ddim i'r ysgol os yw rhieni yn dymuno i'w plant gael addysg mewn ysgol sydd o nodwedd grefyddol benodol, yn amodol ar feini prawf o ran oedran/pellter, os nad yw'r ysgol addas agosaf â nodweddion o'r fath;
- cyflwyno gofyniad penodol i asesu anghenion plant sy'n derbyn gofal, ac i ddarparu ar eu cyfer, ac egluro'r trefniadau talu cysylltiedig rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru;

- ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymru, wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Mesur, hybu mynediad i addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;
- ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymddygiad mewn perthynas â theithio i fannau dysgu ac oddi yno ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r cod hwnnw fod yn rhan o god ymddygiad ysgol;
- rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol newid amserau sesiynau ysgolion os gall hynny arwain at welliannau o ran trefniadau cludo neu gynaliadwyedd amgylcheddol.

## Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  John Griffiths AC - Y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau
- **Dyddiad cyflwyno:**
  7 Gorffennaf 2008
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  13 Mai 2009

Mae'r Mesur hwn yn gam tuag at weithredu **Llwybrau Dysgu 14 - 19** ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Yn ôl Llywodraeth Cymru, diben y Mesur yw sicrhau bod modd i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed ddewis o ystod eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol.

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi cyfle cyfartal i ddysgwyr rhwng 14 a 19 oed i ddewis nifer o opsiynau addysgiadol, pa le bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Brian Gibbons AC - Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  22 Medi 2008
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Mehefin 2009

Bwriad Llywodraeth Cymru dan y Mesur hwn yw gwneud Awdurdodau Lleol yn fwy effeithiol drwy osod dyletswyddau statudol newydd arnynt mewn cysylltiad â gwella gwasanaethau a chynllunio strategol. Mae hyn yn cynnwys:

- cysylltu llesiant a chynllunio cymunedol â gwella gwasanaethau;
- ailddiffinio dyletswyddau sylfaenol Awdurdodau Lleol i roi cyfrif am welliannau; a
- ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid lleol gydweithredu wrth sicrhau canlyniadau strategol cymunedol ac ymgysylltu â dinasyddion.

## Mesur Addysg (Cymru) 2009

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Jane Hutt AC - Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.
- **Dyddiad cyflwyno:**
  27 Ebrill 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  9 Rhagfyr 2009

Diben y Mesur hwn yw rhoi'r hawl i blant wneud apelau anghenion addysgol arbennig a hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd i Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. O wneud hynny mae'r Mesur yn rhoi gogwydd ymarferol ar **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** a **7 Nod Craidd** Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ef.

Yn benodol, nod y Mesur yw darparu sicrwydd ychwanegol y diwellir anghenion plant a phobl ifanc anabl a'r rheini ag anghenion addysgol arbennig, drwy leihau'r tebygolrwydd efallai na fydd modd rhoi sylw i'w hanghenion pan na fydd eu rhieni eu hunain yn bwrw ymlaen ag apêl neu gais. Mae hefyd yn rhoi hawl annibynnol i blant ag anghenion addysgol arbennol (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir ynghylch eu hanghenion cymorth addysg.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy’n gyfrifol am y Mesur:**
  Brian Gibbons AC - Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  2 Mawrth 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Chwefror 2010

Mae’r Mesur yn cynnwys nifer o ddarpariaethau statudol i fynd ati i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru o ran tlodi plant. Yn benodol, gwnaiff y Mesur y darpariaethau a ganlyn sy’n ceisio darparu mwy o gymorth i deuluoedd sydd, o bosibl, â phlant mewn perygl:

- Gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth ar gyfer cyfrannu tuag at ddileu tlodi plant yng Nghymru;
- Cyflwyno gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i sefydlu timau integredig cymorth i deuluoedd i gyfnerthu’r gefnogaeth sydd ar gael i blant agored i niwed a’u teuluoedd drwy ad-drefnu gwasanaethau i ddarparu gwasanaeth sydd wedi’i dargedu’n well ac a gyflwynir gan dimau aml-ddisgyblaethol proffesiynol er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer plant ac oedolion fel bod modd iddynt fyw gyda’l gilydd yn ddiogel fel uned deuluol; a
- Gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol i wireddu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i **Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn,** yn benodol Erthygl 31.1 ac Erthygl 31.2 mewn cysylltiad â chwarae.

## Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Gwenda Thomas AC - Y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  29 Mehefin 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  17 Mawrth 2010

Mae'r Mesur hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu fframwaith mwy cyson ar gyfer awdurdodau lleol pan fyddant yn codi tâl ar ddefnyddwyr gwasanaethau unigol am wasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl.

## Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Elin Jones AC - Y Gweinidog dros Faterion Gwledig
- **Dyddiad cyflwyno:**
  19 Hydref 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  11 Mai 2010

Mae'r Mesur yn diddymu'r angen am gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i reoli datblygiad ac i hybu'r diwydiant cig coch yng Nghymru, a bydd yn gwneud Gweinidogion Cymru yn uniongyrchol atebol am y diwydiant.

Mae hefyd yn cyflwyno cytundeb dirprwo newydd rhwng Gweinidogion Cymru a **Hybu Cig Cymru** er mwyn darparu fframwaith hyblyg y byddai modd iddo gefnogi dulliau amgen ar gyfer penderfynu ar yr ardoll cig coch ac ar y dulliau o'i chasglu.

## Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Gwenda Thomas AC - Y Dirprwy Weinidog dros y Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  25 Ionawr 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Tachwedd 2010

Mae'r Mesur yn gosod gofyniad newydd ar y GIG ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru i weithio mewn partneriaeth i baratoi, cyhoeddi a gweithredu strategaeth ar y cyd mewn perthynas â gofalwyr. Bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd y Mesur hwn yn llenwi'r bylchau yn y ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd drwy ddarparu fframwaith statudol newydd. Yn benodol, mae'r Mesur yn darparu ar gyfer:

- Sicrhau bod gan ofalwyr y wybodaeth iawn ar yr adeg iawn i'w cefnogi yn eu rôl ofalu; a
- Sicrhau bod asiantaethau statudol yn ymgynghori'n briodol â gofalwyr fel partneriaid yn y gofal a ddarperir, gan eu cynnwys ar bob lefel o'r gwaith asesu, cyflawni a gwerthuso'r trefniadau gofal.

## Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Jane Davidson AC - Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
- **Dyddiad cyflwyno:**
  22 Chwefror 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  15 Rhagfyr 2010

Mae'r Mesur hwn yn gwneud darpariaeth i leihau'r gwastraff a'r sbwriel a gynhyrchir yng Nghymru a chyfrannu at ddatblygu trefniadau mwy effeithiol a chynaliadwy o reoli gwastraff yng Nghymru. I gyflawni'r amcanion hyn, mae'r Mesur yn:

- Diwygio Atodlen 6 o *Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd 2008*[2] i roi i Weinidogion Cymru y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i fanwerthwyr gyfrannu elw net o werthu bagiau siopa untro i ddibenion neu bersonau penodol;
- Pennu targedau statudol i sicrhau bod canran o wastraff bwrdeistrefol awdurdod lleol yn cael ei ailgylchu, gyda'r nod o sicrhau bod Cymru'n dod yn "gymdeithas sy'n ailgylchu llawer";
- Darparu pwerau i Weinidogion Cymru roi targedau gwastraff eraill ar waith sydd i'w cyrraedd gan awdurdodau lleol ac i roi cosb ariannol os ydynt yn peidio â chydymffurfio;
- Darparu pwerau i Weinidogion Cymru gyflwyno gwaharddiadau neu gyfyngiadau ar dirlenwi rhai deunyddiau penodol yng Nghymru; a
- Darparu pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau am gynllun ffioedd a chodi tâl ar gyfer Cynlluniau Rheoli Gwastraff Safleoedd ar gyfer y sector adeiladu a dymchwel yng Nghymru.

---

[2] **Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (p.27)**

## Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Edwina Hart AC - Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  22 Mawrth 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  15 Rhagfyr 2010

Nod y Mesur hwn yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn gynt i unigolion sydd a phroblemau iechyd meddwl er mwyn lleihau'r risg o ddirywiad pellach yn eu hiechyd meddwl. Mae'r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer pobl sy'n cael gofal iechyd meddwl eilaidd ac mae'n ymestyn darpariaeth eiriolaeth iechyd meddwl y tu hwnt i'r hyn sy'n ofynnol ar hyn o bryd. I gyflawni'r amcanion hyn, mae'r Mesur:

- Yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol ac Awdurdodau Lleol i weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau cefnogi iechyd meddwl sylfaenol lleol drwy Gymru;
- Yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau gofal a thriniaeth ar gyfer y rhai sy'n cael gofal iechyd meddwl eilaidd;
- Yn galluogi unigolion a gaiff eu rhyddhau o ofal gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd i gyfeirio'u hunain yn ôl at wasanaethau eilaidd yn uniongyrchol, heb orfod mynd at eu meddyg teulu i wneud hynny; a
- Yn diwygio *Deddf Iechyd Meddwl 1983*[3] i ddarparu ar gyfer cynllun strategol mewn perthynas ag eiriolaeth annibynnol yng Nghymru sy'n ehangach na'r ddarpariaeth statudol a ddarperir yn y Ddeddf honno ar hyn o bryd.

---

[3] **Deddf Iechyd Meddwl 1983 (p.20)**

## Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Alun Ffred Jones AC - Y Gweinidog dros Dreftadaeth
- **Dyddiad cyflwyno:**
  4 Mawrth 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  9 Chwefror 2011

Bwriedir i'r Mesur hwn foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*[4] ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r Mesur:

- yn cynnwys darpariaethau am statws swyddogol yr iaith Gymraeg;
- yn sefydlu swydd Comisiynydd y Gymraeg, a fydd yn cymryd lle Bwrdd yr Iaith Gymraeg;
- yn arwain y ffordd ar gyfer datblygu "safonau" o ran integreiddio'r Gymraeg wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd drwy nifer o sefydliadau. Bydd y safonau hyn, ymhen amser, yn cymryd lle cynlluniau iaith Gymraeg;
- yn rhoi'r grym i'r Comisiynydd ymchwilio i gwynion oddi wrth siaradwyr Cymraeg sy'n credu bod ymyrraeth wedi bod ar eu rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg; a
- yn creu Tribiwnlys y Gymraeg y bydd modd iddo wrando ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r Comisiynydd, ynghylch manylion y safonau neu ganlyniad ymchwiliadau.

---

[4] **Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (p.38)**

## Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Huw Lewis AC - Y Dirprwy Weinidog dros Blant
- **Dyddiad cyflwyno:**
  14 Mehefin 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  16 Mawrth 2011

Mae'r Mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau a'r rhwymedigaeth yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** wrth wneud penderfyniad strategol. Drwy basio'r Mesur hwn, Cymru yw'r wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i integreiddio Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i gyfraith ddomestig. Mae'r Mesur hefyd:

- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi a chyhoeddi Cynllun Plant a fydd yn nodi trefniadau ar gyfer sicrhau cydymffurfio â'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i hawliau a chyfrifoldebau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i hybu gwybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a dealltwriaeth ohono; ac
- yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ymgynghori ar gymhwysiad posibl y Mesur arfaethedig i bobl sydd wedi troi'n 18 oed, ond heb droi'n 25 oed.



## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- **Dyddiad cyflwyno:**
  12 Gorffennaf 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Mai 2011

Nod y Mesur hwn yw atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y meant yn gweithio er mwyn sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy.

Prif amcanion Llywodraeth Cymru wrth weithredu'r Mesur yw:

- Ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol;
- Caniatáu adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000[5] fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru;
- Cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaethau'r awdurdodau lleol ("aelodau'r meinciau cefn") mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol;
- Datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i weithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o

---

[5] ***Deddf Llywodraeth Leol 2000*** **(p.22)**

ran eu rôl fel cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill;

- Diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr; a
- Caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill.
- Mae'r Mesur hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu awdurdodau lleol newydd drwy uno dau neu dri awdurdod presennol. Fodd bynnag, dim ond os yw Gweinidogion Cymru yn fodlon na fydd yn debygol y caiff llywodraeth leol effeithiol ei chyflawni yn un o'r awdurdodau lleol dan sylw y caniateir defnyddio pwerau i sicrhau gwelliant parhaus a chydlafurio, mewn rhai achosion, rhwng awdurdodau lleol.

## Mesur Diogelwch ar Gludiant i Ddysgwyr (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Ieuan Wyn Jones AC - Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth
- **Dyddiad cyflwyno:**
  20 Medi 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Mai 2011

Mae'r Mesur hwn yn gwneud newidiadau i *Fesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008* (gweler tudalennau 2 a 3) er mwyn mynd i'r afael ag amcanion Llywodraeth Cymru o wella delwedd ac ansawdd cludiant penodedig i ddysgwyr a sicrhau bod y safonau diogelwch yn ddigon uchel i ennyn hyder y cyhoedd a'r rhieni mewn cludiant penodedig i ddysgwyr.

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol neu gorff llywodraethu ysgol a gynhelir fel a ganlyn:

- Gosod gwregysau diogelwch priodol;
- Defnyddio cerbydau unllawr yn unig;
- Defnyddio bysiau sydd wedi'u gweithgynhyrchu ar ôl dyddiad penodol;
- Gosod teledu cylch cyfyng ar fysiau;
- Defnyddio cerbydau sy'n bodloni'r fanyleb 'bysiau melyn';
- Darparu'r safonau perthnasol ar gyfer hyfforddi gyrwyr;
- Cynnal asesiadau risg diogelwch;
- Darparu staff i oruchwylio bysiau ysgol; a
- Darparu manylebau mewn cysylltiad â thacsis a cherbydau hurio

preifat.

- Er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r dyletswyddau hyn, mae'r Mesur hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i:
- Creu tramgwyddau troseddol ar gyfer achosion lle bo darparwyr cludiant i ddysgwyr yn methu â bodloni'r gofynion a bennwyd;
- Creu cosbau sifil ar gyfer achosion lle bo darparwyr cludiant i ddysgwyr yn methu â bodloni'r gofynion a bennwyd;
- Sefydlu corff gorfodi er mwyn gorfodi'r rheoliadau; a
- Sefydlu tribiwnlys ar gyfer apelau.

## Mesur Tai (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Jocelyn Davies AC - Y Dirprwy Weinidog dros Dai
- **Dyddiad cyflwyno:**
  22 Tachwedd 2010
- Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:
  10 Mai 2011

Mae'r Mesur hwn yn gwneud darpariaethau sy'n ei gwneud yn bosibl i ddarparu tai fforddiadwy mewn modd effeithiol yng Nghymru. Mae'r Mesur yn cynnwys dwy elfen gyffredinol:

- Mae'r Mesur yn galluogi Gweinidogion Cymru i atal dros dro yr hawl i brynu, yr hawl i brynu a gadwyd a'r hawl i gaffael a feddir gan denantiaid darparydd tai cymdeithasol yng Nghymru, ar gais gan Awdurdod Tai Lleol mewn ardaloedd sydd o dan bwysau oherwydd prinder tai; a
- Mae'r Mesur yn rhoi rhagor o bwerau rheoleiddio a phwerau ymyrraeth i Weinidogion parthed y ddarpariaeth o dai gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

## Mesur Addysg (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Leighton Andrews AC - Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes
- **Dyddiad cyflwyno:**
  6 Rhagfyr 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  10 Mai 2011

Mae'r Mesur hwn yn rhoi cyfres o bwerau a dyletswyddau ar waith er mwyn sicrhau bod cydweithio'n rhywbeth sy'n digwydd yn gyffredin yn y system addysg er mwyn gwella llywodraethu ysgolion a symleiddio'r broses o gynllunio lleoedd ysgolion yng Nghymru.

Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth ar gyfer:

- Ysgogi cydlafurio rhwng awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach;
- Rhoi pŵer i awdurdodau lleol sefydlu ffederasiwn o ysgolion;
- Hyfforddi llywodraethwyr ysgolion a gwella gwasanaeth clercio cyrff llywodraethu; a
- Atal ysgolion yn y dyfodol rhag newid categori i fod yn ysgolion sefydledig, ac atal ysgolion sefydledig newydd rhag cael eu sefydlu.



## Mesurau arfaethedig Aelodau'r Cynulliad

Mae Adran 97(1) o Ddeddf 2006 ynghyd â Rheol Sefydlog 23[6] yn galluogi Aelodau'r Cynulliad, Comisiwn y Cynulliad a phwyllgorau'r Cynulliad i gyflwyno Mesurau Cynulliad. Mae dau Fesur arfaethedig Aelodau'r Cynulliad wedi'u pasio gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma.

### Y Mesur Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2009

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Jenny Randerson AC
- **Dyddiad cyflwyno:**
  14 Mawrth 2008
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  15 Hydref 2009

Diben y Mesur hwn yw cynnig polisi cyfannol, cynhwysfawr yn ymwneud â maeth sy'n sicrhau bod bwyta'n iach yn cael ei hybu a'i gefnogi ar gyfer yr holl ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol yng Nghymru. Mae'r Mesur:

- yn gosod dyletswydd ar ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i hybu bwyta ac yfed yn iach mewn ysgolion;
- yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i nodi'n fanwl gynnwys y bwyd a gaiff ei weini mewn ysgolion, yn cynnwys pwerau i bennu lefelau uchafswm braster, halen a siwgr mewn bwyd a ddarperir ar gyfer disgyblion;

[6] ***Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*** **Hydref 2010, Rheol Sefydlog 23 [fel ar 4 Ionawr 2011]**

- yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod dŵr yfed ar gael am ddim; a
- yn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn annog disgyblion i fwyta cinio ysgol, ac yn arbennig o ran prydau ysgol a llaeth am ddim.

## Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau â Phenderfyniadau) (Cymru) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:** Dai Lloyd AC
- **Dyddiad cyflwyno:** 18 Gorffennaf 2008
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:** 15 Rhagfyr 2010

Mae'r Mesur hwn yn darparu mewn perthynas ag ymgysylltiad cymunedau â phenderfyniadau gan awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch cael gwared ar gaeau chwarae. Yn benodol, mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a fyddai'n galluogi cymunedau i gael eu cynnwys mewn penderfyniadau gan awdurdodau lleol am y modd y maent yn cael gwared ar gaeau chwarae.

## Mesur Diogelwch Tân Domestig (Cymru) 2011

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Ann Jones AC
- **Dyddiad cyflwyno:**
  8 Gorffennaf 2010
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  7 Ebrill 2011

Nod y Mesur hwn yw lleihau nifer yr achosion o farwolaethau ac anafiadau oherwydd tanau mewn preswylfeydd a gaiff eu hadeiladu o'r newydd yng Nghymru drwy roi dyletswydd ar y diwydiant adeiladu i sicrhau bod yn rhaid darparu system llethu tân awtomatig ym mhob preswylfa newydd sy'n gweithio'n effeithiol ac sy'n cydymffurfio â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Byddai methu â chydymffurfio â'r ddyletswydd hon yn cyfateb i dorri rheoliadau adeiladu o dan *Ddeddf Adeiladu 1984*.[7] Dim ond i'r gwaith o adeiladu preswylfeydd newydd yng Nghymru y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol.

[7] ***Building Act 1984*** **(c.55)**

# Mesurau arfaethedig Comisiwn y Cynulliad

Dim ond un Mesur arfaethedig Comisiwn y Cynulliad sydd wedi ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma.

## Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Y Gwir Anrh. yr Arglwydd Elis-Thomas AC, Llywydd
- **Dyddiad cyflwyno:**
  9 Tachwedd 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  21Gorffennaf 2010

Mae'r Mesur hwn yn sefydlu **Bwrdd Taliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru** .

Cyflwynwyd darpariaethau'r Mesur hwn yn dilyn argymhellion a wnaed gan y **Panel Adolygu Annibynnol ar Gyflog a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad**, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2009, i greu Bwrdd Taliadau annibynnol y Cynulliad Cenedlaethol fel y Corff Adolygu Annibynnol statudol i bennu ac adolygu cyflogau, lwfansau a threfniadau pensiwn Aelodau'r Cynulliad a deiliaid swyddi eraill.

Penodwyd y Cadeirydd, y Gwir Anrh. George Reid, ynghyd ag Aelodau eraill y Bwrdd Taliadau ar 22 Medi 2010 a chyhoeddodd ei adroddiad cyntaf ym mis Mawrth 2011, gan bennu cyflogau Aelodau'r Cynulliad am ym pedair blynedd nesaf.[8]

---

[8] **Datganiad i'r Wasg Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Y Cynulliad yn penodi Cadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd Taliadau*, 22 Medi 2010 [fel ar 11 Ionawr 2011]**

# Mesurau arfaethedig Pwyllgor y Cynulliad

Dim ond un Mesur arfaethedig Pwyllgor y Cynulliad, a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad, sydd wedi'i basio gan y Cynulliad Cenedlaethol hyd yma.

## Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009

- **Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Mesur:**
  Jeff Cuthbert AC - Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
- **Dyddiad cyflwyno:**
  25 Mawrth 2009
- **Dyddiad y Gymeradwyaeth Frenhinol:**
  9 Rhagfyr 2009

Mae'r Mesur yn rhoi sail statudol i swydd y **Comisiynydd Safonau**. Bydd yn sicrhau bod y Comisiynydd yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol ac felly'n gallu ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad gyda gwrthrychedd llwyr. Bydd hefyd yn rhoi pwerau i'r Comisiynydd i'w alluogi i ymchwilio i gwynion yn drylwyr, yn cynnwys pŵer i'w gwneud yn ofynnol i drydydd parti ddarparu gwybodaeth berthnasol.

Penodwyd y Comisiynydd Safonau presennol, Gerard Elias QC, ar 17 Tachwedd 2010.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth ar ddeddfwriaeth y Cynulliad a materion cyfansoddiadol, cysylltwch ag

Owain Roberts (**Owain.Roberts@wales.gov.uk**)

**Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y lincs ddwywaith

- **Crynodeb o'r pwerau deddfu a drosglwyddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ers 2007**
- **Is-ddeddfwriaeth**
- **Y Cyfansoddiad – rhestr termau**